

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

CYNLLUN STRATEGOL 2020/2030

Mawrth 2020



Cynnwys

Rhagair	3
Ein Themâu Strategol.....	4
Datganiad Lles	5
Amdanom Ni	6
Dangosyddion Perfformiad Strategol	7
Ein Cyllideb ar gyfer 2020/2021	8
Pam rydym yn cynllunio	9
Sut rydym yn cynllunio	10
Crynodeb o'r Cynllun	11-17
Eich Cadw'n Ddiogel	18
Ymateb i'ch Argyfwng	20
Gweithio gyda'n Partneriaid	22
Ymgysylltu a Chyfathrebu	24
Diogelu'r Amgylchedd	25
Defnyddio Technoleg yn Dda	27
Gwerthfawrogi ein Pobl	29
Parhau i Weithio'n Effeithiol	31
Dweud eich Dweud / Ysgrifennwch Atom	33



Rhagair



Huw Jakeway QFSM

Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



Cynghorydd Tudor Davies

Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Croeso i Gynllun Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) 2020 - 2030. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein themâu strategol tymor hwy newydd ac yn egluro sut y bwriadwn barhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel sy'n diwallu anghenion ein cymunedau nawr ac i'r dyfodol.

Mae'r wybodaeth sydd ar gael i ni yn dweud wrthym y gallwn ddisgwyl gweld cynnydd yn y boblogaeth a'r boblogaeth hyn ill dau ledled Cymru yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl cynnydd mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â'r tywydd megis llifogydd a thanau gwyllt yn sgil newid hinsawdd, cynnydd mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ynghyd â nifer o heriau eraill yn seiliedig ar ddyfodol ein hiechyd, yr economi a thechnoleg. Ein cynllun newydd, tymor hwy, yw sicrhau y gallwn barhau i wireddu ein gweledigaeth o **“wneud De Cymru'n ddiogelach drwy leihau risg”**.

Rydym wedi cyflwyno wyth thema strategol hirdymor newydd, y gellir eu rhannu'n 26 o amcanion tymor byrrach. Rydym yn hyderus y bydd ein wyth thema strategol hirdymor, a'u hamcanion, yn ein galluogi i ddarparu Gwasanaeth cynaliadwy, sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau fel partneriaid statudol o'r naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) rydym yn gwasanaethu a chefnogi ein hymrwymiad parhaus i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLICD).

Mae'r cynllun hwn hefyd yn nodi ein trefniadau ariannu gan setliadau Awdurdodau Lleol ac yn nodi sut yr ydym yn bwriadu gwario'r gyllideb. Er ein bod yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol, byddwn bob amser yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'n cymunedau pan fydd angen. Byddwn bob amser yn ystyried cyfleoedd i wella a, lle y bo'n bosibl, byddwn yn defnyddio cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth ill dau i gyflawni gweithgareddau atal ac amddiffyn effeithiol ac effeithlon.

Croesawn eich adborth i'r cynllun hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan ein bod ni'n gwerthfawrogi eich barn a'ch ymgysylltiad â ni, a fydd yn ein helpu i wella.

Ein Themâu Strategol

Thema Strategol	Yr hyn a wnawn
Eich Cadw'n Ddiogel 	Codi eich ymwybyddiaeth o risgiau drwy addysg a gwybodaeth, i'ch diogelu rhag niwed.
Ymateb i'ch Argyfwng 	Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fyddwch chi ein hangen.
Diogelu ein Hamgylchedd 	Gwnewch yn siŵr ein bod bob amser yn cynllunio ac yn gweithio mewn ffordd sy'n helpu cynnal y blaned ar gyfer ein cenedlaethau yn y dyfodol.
Gweithio gyda'n Partneriaid 	Gweithio gyda'n partneriaid i gynllunio gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'u targedu ar sail cyd-ddealltwriaeth risg, er mwyn cyflawni ein canlyniadau a rennir.

Thema Strategol	Yr hyn a wnawn
Ymgysylltu a Chyfathrebu 	Siarad â'n cymunedau a'n pobl a'u cynnwys fel y gallwn ddarparu ein gwasanaethau i ddiwallu eich anghenion yn effeithiol.
Gwerthfawrogi ein Pobl 	Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n awyddus i ddarparu ein gwasanaeth.
Defnyddio Technoleg yn Dda 	Edrych yn barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg briodol lle gall wella ein gwasanaeth i chi.
Parhau i Weithio'n Effeithlon 	Gwneud yn siŵr bod ein gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian a'n bod yn glir ynglŷn â sut yr ydym yn perfformio.

Datganiad Lles

Rydym wedi ymrwymo i gwrdd â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a byddwn yn parhau i ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithrediadau. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y naw BGC er mwyn sicrhau ein bod yn diogelu ac yn dyrchafu lles y cymunedau a wasanaethir gennym.

Drwy weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy DLICD, sy'n datgan y dylem weithredu mewn "dull sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain", byddwn yn gallu cyfrannu at wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae DLICD yn darparu fframwaith i dystiolaethu ein gweithgareddau i'r dyfodol a llywio ein prosesau penderfynu.

Mae DLICD yn diffinio saith nod ac rydym wedi nodi camau gweithredu amrywiol fydd yn cyfrannu at y nodau hyn. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cymhwyso'r "pum ffordd o weithio"; **Hirdymor, Cyfannu, Cynnwys, Cydweithredu** ac **Atal** wrth wneud penderfyniadau o fewn y Gwasanaeth. Byddwn yn monitro ein cynnydd tuag at y rhain fel rhan o'n prosesau cyfredol.

Saith Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Cymru
gydnerth



Cymru o
gymunedau
cydlynus



Cymru â diwylliant
bywiog lle mae'r
Gymraeg yn ffynnu



Cymru
lewyrchus








Cymru
iachach



Cymru
sy'n fwy cyfartal




Cymru sy'n gyfrifol
ar lefel byd-eang




Cliciwch neu sganiwch god QR cloriau'r cynlluniau BGC uchod i ddarllen mwy o fanylion yn eich hardal.

Amdanom ni




Yn 2018-2019, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru:



Dangosyddion Perfformiad Strategol

Dangosyddion Strategol

	Blwyddyn Ariannol 15/16	Blwyddyn Ariannol 16/17	Blwyddyn Ariannol 17/18	Blwyddyn Ariannol 18/19	Tuedd 4 Blynedd	Targed Blwyddyn Ariannol 20/21
Cyfanswm y tanau a fynychwyd	6,578	5,798	5,793	6,897		5,942
Cyfanswm y galwadau ffug a fynychwyd	8,323	8,191	7,685	7,847		7,500
Cyfanswm y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd	1,322	1,179	1,139	1,112		1,002
Cyfanswm y Galwadau Gwasanaeth Arbennig a fynychwyd	2,101	2,147	2,623	2,062		2,276
Cyfanswm y Marwolaethau ac Anafiadau o holl danau	85	92	67	71		68
Cyfanswm y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o danau damweiniol	76	74	58	55		57
Canran y Tanau mewn Anheddau a gynhwyswyd o fewn yr ystafell lle y'u tarddwyd	84.60%	84.80%	83.70%	82.50%		85.00%

Ein Cyllideb ar gyfer 2020/2021 yw £74,879,797

Gwnaed cyfraniadau i hynganyrawdurdodau lleol rydym yn gwasanaethu: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.



Dosberthir costau gweithwyr o £49,951,518 ar draws ein holl staff fel y dangosir isod.




*Eraill yn cynnwys goramser, teithio a chostau eraill sy'n ymwneud â staff

Pam rydym yn cynllunio

Rydym bob amser yn ceisio gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i chi yn ogystal â rheoli risgiau drwy weithio mewn partneriaeth a'n gweithgareddau atal, amddiffyn ac ymateb. Yn ystod ein cylch cynllunio blynyddol, rydym yn cynnal diwrnodau cynllunio gyda'n Uwch Dîm Rheoli i ystyried yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â Tân ac Achub a all effeithio ar gymunedau De Cymru i benderfynu ar ba ffyrdd y gallwn weithio'n effeithiol i atal y risgiau hyn rhag niweidio'r rheiny o fewn ein cymunedau.

Rydym hefyd yn ystyried ein cyllidebau a'r cyfreithiau sy'n effeithio arnom, i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein gwaith o fewn y meysydd cywir. Rydym yn ymgynghori â'n staff, ein cymunedau a'n partneriaid cyn cwblhau ein hamcanion.

Rhennir ein hamcanion yn dasgau cynllunio busnes ac rydym yn darparu adroddiadau rheolaidd ar ein cynnydd yn erbyn y tasgau hyn i'n Hawdurdod Tân ac Achub. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn ar ein gwefan a gellir eu gweld yma. bit.ly/GTADCCyhoeddiadau




Sut rydym yn cynllunio

Mae'r diagramau isod yn dangos sut mae hyn i gyd yn cyd-fynd fel fframwaith o fewn y Gwasanaeth.

Ein Proses Cynllunio



Mae'r diagram hwn yn dangos yr ystyriaethau allanol yr ydym yn eu hystyried wrth gynllunio, y lefelau cynllunio a'r cysylltiadau rhyngddynt.



Cynllun o'r Crynodeb

Ein Themâu Strategol	Bydd ein Hamcanion yn caniatáu i ni gyflawni hyn wrth wneud y canlynol:	I ddarparu hwn, rydym yn cynllunio i wneud y canlynol:
Eich Cadw'n Ddiogel  Codi eich ymwybyddiaeth o risgiau drwy addysg a gwybodaeth, i'ch diogelu rhag niwed	Lleihau effaith larymau ffug ar ein hadnoddau Lleihau nifer y tanau yn y cartref a deall yr ymddygiad a'r hyn sy'n eu hachosi Lleihau nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd Lleihau nifer y tanau bwriadol Gwella diogelwch mewn, ac o gwmpas dŵr Gwella diogelwch tân mewn adeiladau o fewn ein cymunedau	- Parhau i herio galwadau brys, a dderbynnir o ganlyniad i actifadu larwm tân awtomatig, i geisio penderfynu a oes tân gwirioneddol ai peidio - Parhau i weithio gyda phartneriaid lechyd ac Addysg i leihau galwadau ffug - Parhau i gyflwyno gwiriadau diogelwch yn y cartref mwy trwyadl - Cyfweld ag aelodau'r cyhoedd sydd wedi bod ynghlwm â thanau yn y cartref i ddeall mwy ynghylch yr achosion y tu ôl iddynt - Archwilio mentrau addysg Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFF) newydd - Cynyddu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i ddarparu rhybuddion tywydd ac ardaloedd i'w hosgoi yn ystod, ac ar ôl argyfyngau - Cofnodi disgrifiadau o'r rhai sy'n cynnau tanau bwriadol, lle mae'r manylion hyn ar gael gan alwyr, a gellir pasio'r manylion hyn i'r heddlu - Defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan y galwr(wyr) i ddanfôn y criwiau a'r offer gorau i atal perchnogion rhag ceisio achub anifeiliaid o'r dŵr - Darparu "Arweiniad am Sut i Oresgyn"; sicrwydd a chynghor achub bywydau a ddarperir gan weithredwr yr ystafell reoli nes bydd cymorth yn cyrraedd yr argyfwng - Cynyddu cefnogaeth i ymgyrchoedd diogelwch dŵr a chychod â'r Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC - llais proffesiynol Gwasanaeth Tân ac Achub y DU sy'n gyrru gwelliannau, datblygu ac arweinyddiaeth) - Cyflwyno rhaglenni diogelwch dŵr i leihau nifer yr achosion o foddï a gwella addysgu ynghylch diogelwch dŵr - Coladu gwybodaeth am safleoedd risg uchel, e.e. ysbytai a ffatrioedd, a elwir yn Wybodaeth Risg Penodol i Safleoedd (GRPS) i sicrhau diogelwch diffoddwyr tân - Gweithredu argymhellion cynllun strategol y gweithgor tyrau uchel i gadw pobl sy'n byw mewn tyrau uchel yn ddiogel

**Ymateb i'ch
Argyfwng**



**Ymateb yn
gyflym ac yn
effeithiol pan
fydd ein hangen
arnoch**

Ymateb yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch

Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bydd ein System Ddyletswydd Ar-Alwad (SDdAA) ar gael

Hyfforddi ein Diffoddwyr Tân i ymateb i risgiau cyfredol ac i'r dyfodol o fewn ein cymunedau

- Sicrhau bod ein polisiau a'n gweithdrefnau wedi'u diweddarau, yn adlewyrchu Gweithdrefnau Gweithredu Sefydlog, (GGS) - cyfarwyddiadau cam wrth gam i gynorthwyo â chwblhau tasgau cymhleth yn llwyddiannus
- Sicrhau y gallwn gefnogi cyfnodau prysur yn y Cyd-Ganolfan Rheoli Tân
- Defnyddio technoleg i helpu adnabod lleoliadau galwyr, e.e. Gwasanaeth Gwybodaeth Uwch British Telecom ar gyfer Galwadau Brys (GGUGB) sy'n galluogi staff yr ystafell reoli i adnabod lleoliad galwr, a danfon y peiriant tân agosaf atynt
- Parhau i ddefnyddio'n cynllunnydd recriwtio i dargedu niferoedd o staff yn ôl blaenoriaeth Gorsafoedd Tân ac Achub
- Monitro gweithgareddau recriwtio SDdAA drwy ddatblygu system gynllunio SDdAA i'r dyfodol
- Cynnal cymhwysedd ein staff ynghyd â defnyddio gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i ôl-gyfarfodydd ac ymarferion hyfforddi i leihau risg
- Adnabod tueddiadau'r dyfodol sy'n mynnu rhaglenni hyfforddi newydd
- Datblygu dulliau i adnabod a gwobrwyo unigolion sy'n perfformio'n rhagorol drwy law eu cynlluniau datblygu

Gweithio gyda'n Partneriaid  Gweithio gyda'n partneriaid i gynllunio gwasanaethau a gyflwynir ac a dargedir ar sail cyd-ddealltwriaeth risg, i gyflawni ein canlyniadau ar y cyd	Gweithio gyda'n BGC i gefnogi ein cymunedau Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle bydd eu hangen Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol	- Gweithio ar ein cyd-drefniadau prynu offer a gwasanaethau gyda'n partneriaid y BGC - Gweithio gyda gweithwyr cymunedol awdurdodau lleol i eithafu potensial cyfleoedd recriwtio / ymgysylltu a chanolbwyntio adnoddau'n briodol - Gweithio gyda'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd (GGBC), sy'n dod â'r holl wasanaethau brys yng Nghymru ynghyd, gan gynnwys GIG Cymru, Llywodraeth Cymru a'r lluoedd arfog, i ddeall y galw ar draws y gwasanaethau brys - Parhau i weithio â'r Gwasanaethau Tân ac Achub Cymreig eraill i gytuno ar yr un wybodaeth hyfforddi a'i ddilyn - Cyflwyno system TGCh ar y cyd mewn cydweithrediad â Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent i reoli apwyntiadau staff gyda gwasanaethau lechyd Galwedigaethol - Gweithio gyda phedwar maes Fforwm Hydwythedd Lleol Cymru i sefydlu meysydd sy'n ddigon o faint i gymhwyso rheolaeth a chefnogaeth logistaidd pob asiantaeth sydd eu hangen ar gyfer prif ddigwyddiad, ar draws Cymru
Ymgysylltu a Chyfathrebu  Siarad â'n cymunedau a'n pobl, a'u cynnwys, fel y cawn ddarparu ein gwasanaethau i gwrdd â'ch anghenion yn effeithiol	Darparu argymhellion adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) Cynnwys ein holl gymunedau a sicrhau bod ganddynt lais yn yr hyn rydym yn gwneud Helpu cadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol	- Darparu yn erbyn gweithredoedd sy'n codi o ganlyniad i adroddiad BmP Tachwedd 2019 a pharatoi ar gyfer gwiriad iechyd llawn yn Hydref 2020 - Datblygu cynllun i staff fydd yn cynnwys gwella cyfathrebu dwy ffordd rhwng yr Adran Gweithrediadau, Pencadlysoedd a Gorsafoedd Tân - Datblygu Ap ffônau clyfar yn fodd arall i staff gyfathrebu - Gwella'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan staff Gorsafoedd Tân ac Achub ac CRhT wrth rannu straeon newyddion da a negeseuon diogelwch cymunedol - Cefnogi Gorsafoedd Tân ac Achub i barhau i gynnal digwyddiadau cymunedol lleol gyda staff CRhT hefyd yn mynychu - Parhau i gefnogi gweithgareddau lleihau risg drwy addysgu ein busnesau a'n cymunedau - Sicrhau bod ein holl gyfathrebiadau yn Gymraeg yn cydymffurfio a'r Safonau Cymraeg a'n bod yn defnyddio technoleg i adrodd cynnydd

Diogelu ein Hamgylchedd



Sicrhau ein bod bob amser yn cynllunio a gweithio mewn ffordd sy'n helpu cynnal y blaned i genhedlaethau'r dyfodol

Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau defnydd un tro

- Adolygu'r defnydd o ddeunyddiau defnydd un tro mewn argyfyngau ac ar hyd y Gwasanaeth drwy ein Strategaeth Gynhaliaeth
- Adolygu ein polisi prynu ar gyfer hyrwyddo a marchnata eitemau yn unol â'n hymroddiad amgylcheddol

Archwilio i'r defnydd o gerbydau trydan

- Prynu cerbydau trydan a gosod isadeiledd gwefru cerbydau trydan

Lleihau ein defnydd o ynni a'n hôl troed carbon

- Gwella monitro o'n defnydd o danwydd a thracio ôl troed carbon pob cerbyd
- Archwilio dulliau newydd o weithio i leihau teithio, e.e. cyfyngu symudiadau peiriannau tân gogyfer hyfforddi a chyflenwi nwyddau i Orsafoedd Tân ac Achub

Ystyried sut mae ein gweithgareddau'n effeithio ar yr amgylchedd

- Cynnal arolwg i ddatblygu gorsafoedd tân mwy cynaliadwy e.e. lleihau ein defnydd o bapur a phlastig defnydd un tro
- Archwilio cyfleoedd i leihau ein hôl troed carbon drwy annog rhannu cerbydau a defnyddio technoleg i gyrchu cyfarfodydd o bell
- Corffori gweithredoedd a nodwyd yn ein Cynllun Bioamrywiaeth
- Adrodd a hyrwyddo ein lefelau defnyddio ynni a chynhyrchu gwastraff
- Lleihau ein defnydd o nwyddau traul gan gynnwys papur, inc, cetriss ac ati yn ein gweithgareddau dyddiol

Defnyddio Technoleg yn Dda



Ceisio'n barhaus
i ddefnyddio'r
dechnoleg gywir
lle y gall wella ein
gwasanaeth i chi

Defnyddio'r dechnoleg a'r
offer mwyaf addas i wella ein
gwasanaethau

Adolygu safon a
defnyddioldeb technoleg ac
offer ar draws y Gwasanaeth

- Adolygu'r defnydd o Deledu Cylch Cyfyng, Llywio â Lloeren a ffonau clyfar ar beiriannau tân
- Datblygu hyfforddiant i ddiffoddwyr tân yn nefnydd camerâu delweddu thermol
- Archwilio ystod o systemau newydd i'w defnyddio yn yr Ystafell Reoli ar y Cyd i wella'r ffordd rydym yn ymateb i argyfyngau
- Gwella'r defnydd o swyddogaethau hunan wasanaethu ar ein system Adnoddau Dynol a seilir ar gyfrifiaduron
- Archwilio system rheoli cytundebau gwell
- Monitro'r defnydd o'n technoleg Offer Anadlu (OA) mewn digwyddiadau i amlygu unrhyw broblemau gan ddefnyddwyr
- Diweddarau ein System Rheoli Fflyd i wella'r system a'i swyddogaethau
- Cyflwyno system adrodd damweiniau a methiannau agos iechyd a diogelwch fydd yn weithredol 24/7

Gwerthfawrogi ein Pobl



Cefnogi gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sydd wedi'i hysgogi i ddarparu ein gwasanaeth

Denu gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli'n cymunedau

Datblygu ein pobl wrth adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu

Cefnogi ein pobl i deimlo'n dda, yn iach ac yn hapus yn y gweithle

- Gweithredu cynllun darparu Gwasanaethau Tân ac Achub cynhwysol sy'n ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol ac ymddygiadol o fewn y Gwasanaeth
- Datblygu rhagor o opsiynau ar gyfer ble, pryd a sut bydd ein staff yn gweithio i annog recriwtio grwpiau a dangynrychiolir ar hyn o bryd
- Sefydlu rhwydweithiau gyda grwpiau cydraddoldeb lleol a chynnal sesiynau "blasu" dyddiol
- Corffori proses werthuso effeithiol ar hyd y Gwasanaeth
- Darparu hyfforddiant angenrheidiol i staff ein Hadran Fflyd a Pheirianeg yn unol ag anghenion y Gwasanaeth, gan gynnwys meysydd arbenigol, e.e. cychod a cherbydau trydan
- Parhau i archwilio cyfleoedd i weithredu cynllun prentisiaeth i Swyddogion Diogelwch Tân i Fusnesau
- Datblygu hyfforddiant diogelu data ar-lein
- Corffori'r Rhaglen Ffitrwydd Tân, a gynlluniwyd i gynyddu iechyd a ffitrwydd ein diffoddwyr tân, ar orsafoedd tân yn ogystal â chyflwyno hyfforddiant lles i'n Rheolwyr (tîm) Gwylfa
- Creu amgylchedd cab glân, di-haint i'n diffoddwyr tân wrth ddarparu cyfleusterau storio OA y tu allan i gab y criw
- Darparu amgylchedd gwaith diogelach i'n staff trwsio cyrff cerbydau Fflyd a Pheirianeg
- Datblygu rhaglen i gefnogi iechyd meddwl ein holl staff, er enghraifft system cefnogi cydweithwyr
- Datblygu dull cynhwysfawr i wella lles gweithwyr i leihau absenoldebau drwy salwch a chanolbwyntio ar hyrwyddo iechyd a ffitrwydd

**Parhau i
Weithio'n
Effeithiol**



Sicrhau bod ein Gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian a'n bod ni'n glir ynghylch sut rydym yn perfformio

Bod yn glir ac yn atebol i'r cyhoedd

Eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth

- Casglu a monitro'r data cywir i fesur sut rydym yn perfformio
- Sicrhau bod galwadau CRhT yn cael eu cofnodi, eu monitro a'u harchwilio
- Cyhoeddi pob adroddiad sy'n amlygu perfformiad mewn modd sy'n hawdd ei ddeall
- Cefnogi'r strategaeth cyd-leoli'r gwasanaethau brys ac archwilio cyfleoedd pellach i rannu eiddo yn y dyfodol
- Datblygu methodoleg i gipio cyfarwyddyd ar brosiectau caffael mawr i sicrhau caffaeliadau cost effeithiol i'r dyfodol
- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol i asesu cynhyrchiant a pherfformiad ar draws ein Gwasanaeth
- Sicrhau bod holl gyrsiau hyfforddi diffoddwyr tân gweithredol yn cael eu mynychu i'r eithaf ar bob adeg



Eich Cadw'n Ddiogel



Cymru
gydnerth



Cymru o gymunedau
cydlynus



Cymru
iachach

Byddwn ni'n **eich
Cadw'n Ddiogel**
wrth:

- Leihau effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- Leihau nifer y tanau yn y cartref a deall ymddygiad ac achosion ohonynt
- Leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd
- Leihau nifer y tanau bwriadol
- Wella diogelwch o fewn ac o gwmpas dŵr
- Wella diogelwch tân mewn adeiladau o fewn ein cymunedau

Golyga hyn:

Byddwn ni'n darparu gwybodaeth atal a diogelu rhag, argyfyngau i gadwein cymunedau'n ddiogel. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bu eingweithgareddau ataliol yn hynod ddylanwadol wrth leihau argyfyngau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae hon yn duedd yr hoffem ei chynnal a'i gwella. Un o brif sbardunau ein rhaglen ymgyrchoedd ataliol yw'r wybodaeth yr ydym yn ei chael gan, ac yn rhannu â sefydliadau eraill, sy'n caniatáu i ni ddatblygu ymgyrchoedd penodol ar sail tystiolaeth ystadegol.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod:

- Profwyd ein cynlluniau parhad busnes drwy law ymarferion sy'n cynnwys ein diffoddwyr tân wrth gefn
- Parhawyd i weithio'n agos rhwng swyddogion y Cyd-Ganolfan Rheoli Tân a rheolwyr digwyddiadau Heddlu De Cymru
- Ehangwyd Archwiliadau Tân yn y Cartref i Archwiliadau Tân yn y Cartref Estynedig sy'n cynnwys cyngor am atal cwmpo, diogelwch carbon monocsid, rhoi'r gorau i ysmegu, atal lladrata, cynlluniau anonest (SCAMS) a chartrefi oer
- Parhawyd i leihau adnoddau Gwasanaeth yn mynychu ysgogiadau larymau tân anhpegor
- Dysgwyd o'r holl danau domestig damweiniol drwy gynnal arolygon ôl-dân

Yn ystod 2020-2021, byddwn yn:

Cyflwyno ystod eang o weithgareddau ataliol i sicrhau bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa o'r gwaith rydym yn ei wneud. Byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid i gyflwyno neges gydlynus i'r bobl o fewn ein cymunedau, nid yn unig am ddiogelwch ond hefyd am ystod o ymgyrchoedd eraill i wella lles y gymuned gyfan.

Y tasgau allweddol yw:

- Ymgysylltu â phersonau cyfrifol/perchnogion safleoedd yn dilyn galwadau ffug i leihau galwadau ffug yn y dyfodol
- Parhau i gyflwyno Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref Estynedig
- Hyfforddi'r holl benaethiaid gorsaf i gynnal archwiliadau LEAF (gwerthuso dysgu ar ôl tanau) i bob tân domestig damweiniol
- Dadansoddi data diogelwch ffyrdd i sicrhau yr anelir ein gweithgareddau addysgu ac atal at y grwpiau hynny sydd mwyaf mewn perygl
- Parhau i gyflwyno a gwella ein gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin yn y cartref
- Datblygu a darparu dulliau arloesol i gefnogi lleihau llosgi bwriadol maleisus
- Cyflwyno rhaglenni diogelwch o gwmpas dŵr i leihau'r nifer o achosion o foddï pan fydd aelodau'r cyhoedd yn teithio y tu hwnt i Dde Cymru
- Gweithredu argymhellion y gweithgor adeiladau tyrau uchel er mwyn cadw pobl mewn eiddo annomestig yn ddiogel rhag tân





Ymateb i'ch Argyfwng



Cymru
gydnerth



Cymru
iachach

Byddwn yn **Ymateb**
i'ch Argyfwng wrth:

- Ymateb yn effeithiol pan fyddwch yn ein hangen
- Wneud ein gorau glas i sicrhau bydd ein System Ddyletswydd Ar-Alwad (SDdAA) ar gael
- Hyfforddi ein diffoddwyr tân, staff rheoli tân brys a staff eraill i ymateb i risgiau cyfredol yn ogystal â rhai yn y dyfodol o fewn ein cymunedau

Golyga hyn:

Byddwn yn danfon peiriannau a chriwiau tân yn gyflym ac yn unol â'r hyn sydd angen ar leoliad y digwyddiad. Byddwn yn casglu gwybodaeth allweddol gan y galwr, ac yna'n danfon offer a phobl briodol sy'n unol ag anghenion y digwyddiad, wrth gefnogi'r galwr yn ystod ei argyfwng a darparu cymorth parhaus i'r criwiau sy'n mynychu gydol y digwyddiad, i sicrhau datrysiad diogel.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod:


- Cynhaliwyd archwiliadau gorsaf tân i sicrhau bydd ein cerbydau, offer a'n criwiau yn gwbl barod i ymateb
- Dadansoddwyd tueddiadau sy'n ein helpu adnabod risgiau i'r dyfodol; er enghraifft cynnydd o ran nifer y tanau'n sy'n ymwneud â thrydan neu goginio fel achos tanau domestig damweiniol
- Datblygwyd Cynlluniau Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer pob gorsaf dân, lle defnyddir gwybodaeth gyfredol i ddiweddarau ystadegau a thracio tueddiadau a pherfformiad digwyddiadau lleol gorsafoedd tân ar sail chwarterol
- Casglwyd gwybodaeth ar eiddo risg uchel, e.e. ysbytai a ffatrioedd drwy law ein proses Gwybodaeth Risg Safle Penodol (GRSP) i sicrhau diogelwch diffoddwyr tân

Yn ystod 2020-2021, byddwn yn:

Parhau i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i bob argyfwng a hyfforddi'n diffoddwyr tân i ymateb i risgiau cyfredol ac i'r dyfodol yn ein cymunedau. Byddwn yn canolbwyntio ar hyfforddiant diffodd tân craidd ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau mwyafswm argaeledd ein diffoddwyr SDdAA.

Mae'r Tasgau Allweddol yn cynnwys:

- Monitro argaeledd peiriannau tân, datblygu ymhellach penderfyniadau staff rheoli tân wrth ddyrannu adnoddau i ddigwyddiadau a sicrhau bydd arfau TG, e.e. mapio yn cael eu defnyddio i gynorthwyo adnabod lleoliadau galwyr
- Adolygu ac adrodd ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ymateb y gwasanaethau brys yn ein Cyd-Ganolfan Rheoli Digwyddiadau
- Gwellu llwybr hyfforddi ein diffoddwyr tân SDdAA o'r adeg recriwtio gychwynnol hyd at ddod yn gymwys
- Monitro ac adolygu cymhwysedd diffoddwyr tân a staff rheoli tân gan gynnwys rheoli a chynnal ein rhaglen ymarfer i orsafoedd tân
- Datblygu rhaglen ymarfer hyfforddi (yn cynnwys 10 neu fwy o beiriannau tân) mewn safleoedd risg uchel i ddatblygu sgiliau penaethiaid digwyddiadau brys a fydd yng ngofal digwyddiad





Gweithio Gyda'n Partneriaid



Cymru
gydnerth



Cymru o gymunedau
cydlynus

Byddwn yn **Gweithio
gyda'n Partneriaid**
wrth:

- Weithio gyda'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) i gefnogi ein cymunedau
- Weithio gyda'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle bo eu hangen
- Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol

Golyga hyn:

Byddwn yn adeiladu ar hanes sefydledig o weithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwelliannau i wasanaethau mewn ffordd cost effeithiol. Mae gweithio gydag eraill gan ddefnyddio ymagwedd gydgyssylltiedig yn hanfodol i gefnogi darparu canlyniadau gwell i'n cymunedau lleol, osgoi dyblu ymdrechion a gwario arian cyhoeddus yn ddoeth. Fel partner statudol ar bob un o'r 9 BGC o fewn yr ardal rydym yn ei gwasanaethu, rydym yn cefnogi darparu Cynlluniau Lles unigol a sicrhau bod ein gweithgareddau'n gwella bywydau pobl yn ein cymunedau i'r hirdymor. Byddwn yn rhannu data â'n partneriaid yn y BGC er mwyn lleihau digwyddiadau, cadw ein cymunedau'n ddiogel ac iach a chyflwyno newidiadau angenrheidiol i'n partneriaethau wrth i anghenion newydd ein cymunedau amlygu'u hunain.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod:

- Gwella gweithio gyda'n partneriaid gyda mwy o rannu ein heiddo â'r gwasanaethau brys eraill
- Gweithio gyda'r gymuned ffermio a Chyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â phroblem tanau gwyllt wrth ddatblygu "cynlluniau llosgi" diogel ac effeithiol - llosgi glastiroedd dan reolaeth i atal lledaenu unrhyw dân gwyllt
- Atgyfnerthu'n perthynas â Heddlu De Cymru trwy ein Cyd-Ystafell Reoli Tân
- Cydweithiwyd â Heddlu Gwent a BGC Caerffili i ffurfio Hwb Diogelwch Cymunedol lle mae gweithio gyda'n gilydd yn helpu datrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cymerwyd rhan weithredol gyda'n partneriaid BGC ar fentrau llesiant eraill, er enghraifft, annog bwyta'n iach a gwella eich ffitrwydd

Yn ystod 2020-2021, byddwn ni'n:

Parhau i weithio gyda'n partneriaethau cyfredol a'u cryfhau a chwilio i ddatblygu partneriaethau newydd lle gall hyn fod o fudd i'n cymunedau. Mae ein rôl o fewn y naw BGC yn helpu cefnogi ein nod o ddarparu gwasanaethau pan a lle y mae eu hangen, wrth dargedu ein hadnoddau at ardaloedd a sefyllfaoedd o risg uchel ac i'r bobl hynny sy'n byw o fewn ein cymunedau sydd, am amryw o resymau, yn fwyaf agored i niwed.

Mae'r Tasgau Allweddol yn cynnwys:

- Gweithio ar gyd-brynu offer a gwasanaethau sy'n cynnig cyfleoedd o fewn ein BGC
- Cefnogi strategaeth rhannu safleoedd y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd (GGBC) drwy adolygu'r trefniadau prydlesu presennol
- Cynnal adolygiad o'r Cyd-Ystafell Rheoli Tân i wella trefniadau hydwythedd â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu De Cymru
- Cefnogi ein partneriaid yn y BGC wrth ddatblygu'r rhwydwaith offer gwefru trydanol i gefnogi cerbydau hybrid a thrydan
- Gweithio gyda'r pedwar Fforwm Hydwythedd Lleol Cymru i sefydlu Mannau Dal Strategol Aml Asiantaeth (MDSAA) ledled Cymru
- Cyflwyno system rheoli "staff/cleifion" iechyd galwedigaethol ar y cyd mewn cydweithrediad â Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent
- Cysylltu â gweithwyr cymunedol ein hawdurdod lleol i fanteisio ar gyfleoedd recriwtio ac ymgysylltu i'r eithaf a chanolbwyntio ein hadnoddau yn briodol
- Parhau i gefnogi'r cytundeb gofal iechyd i feithrin perthynas waith agosach â'r Byrddau Iechyd Lleol
- Datblygu gweithio â phartneriaid megis Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) a Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru i gyflwyno hyfforddiant Gweithredu Cychod Achub Dŵr (WRBO) a hyfforddiant eraill sy'n ymwneud â dŵr





Ymgysylltu a Chyfathrebu



Cymru
sy'n fwy cyfartal



Cymru â diwylliant
bywiog lle mae'r
Gymraeg yn ffynnu



Cymru o gymunedau
cydlynus



Cymru
gydnerth

Byddwn yn **Ymgysylltu
a Chyfathrebu** wrth:

- Ddarparu argymhellion Adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl
- Gynnwys ein cymunedau a sicrhau bod ganddynt lais yn yr hyn a wnawn
- Helpu i gadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol

Golyga hyn:

Byddwn yn sicrhau bydd pob un o'n cymunedau a'n staff ynghlwm wrth ein helpu ni i ddarparu gwasanaeth cymunedol rhagorol wrth gynnig ystod o gyfleoedd i'n staff a'n dinasyddion i helpu saerïo ein gweithgareddau i'r dyfodol. Hefyd, byddwn yn chwilio i ennill mwy o safbwyntiau ar sut ydym yn rhannu gwybodaeth â chi.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod:

- Mynychwyd, trefnwyd neu cydlynwyd dros 85 o ddigwyddiadau cymunedol
- Trefnwyd a chynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â'n Tîm Recriwtio a phartneriaid fel Race Equality First i greu gweithlu mwy amrywiol
- Hyrwyddwyd a rheolwyd sesiynau Ffitrwydd Diffoddwyr Tân llwyddiannus iawn mewn Gorsafoedd Tân ledled De Cymru i ddarparu ymgeiswyr ein hymgyrch recriwtio diffoddwyr tân llawn amser er mwyn cael cipolwg da ar ofynion corfforol ac ymarferol y rôl
- Mynychwyd digwyddiad Pride Cymru 2019 yng Nghaerdydd
- Trefnwyd ceisiadau ffilm a radio i'r BBC, ITV a Wales Online ac ati am nifer o bynciau sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd

Yn ystod 2020-2021, byddwn yn:

- Gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu a chyfathrebu negeseuon diogelwch pwysig i'n cymunedau drwy law ein gwefan, mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a gweithio â'n partneriaid
- Datblygu a chyflawni cynllun cyfathrebu i'r staff
- Datblygu ap ffôn clyfar i'w ddefnyddio gan staff i helpu â chyfathrebu
- Annog a chefnogi gorsafoedd tân i gynnal digwyddiadau lleol gyda'u cymunedau



Diogelu ein Hamgylchedd



Cymru sy'n gyfrifol
ar lefel fyd-eang



Cymru
iachach



Cymru
gydnerth

Byddwn yn **Amddiffyn
ein Hamgylchedd**
wrth:

- Leihau ein defnydd o ddefnyddiau untro
- Archwilio'r defnydd o gerbydau trydan
- Leihau ein defnydd o ynni a'n hól troed carbon
- Ystyried sut mae ein gweithgareddau'n effeithio'r amgylchedd

Golyga hyn:

Byddwn yn cynnal ein gweithgareddau mewn modd sy'n helpu cynnal y blaned i genedlaethau'r dyfodol.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod:

- Rydym wedi archebu 20 o gerbydau hybrid i'w defnyddio gan ein staff
- Gosodwyd goleuadau LED ar bob safle gwasanaeth tân i leihau ein defnydd o ynni
- Adnewyddwyd yr unedau aerdymheru yn ein pencadlys
- Gosodwyd Systemau Cynnal Adeiladau (SCA) ym mhob un o'n gorsafoedd tân i ddiffoddwyr tân llawn amser
- Gosodwyd thermostatau rhaglenadwy ym mhob Ystafell Gymunedol yn ein gorsafoedd tân System Ddyletswydd Ar Alwad i reoli'r tymheredd
- Gosodwyd system reoli gydgloi rhwng drysau baeau'r peiriannau tân a'r system wresogi baeau peiriannau tân yn ein gorsafoedd tân

Yn ystod 2020-2021, byddwn yn:

Adolygu a chymryd camau fel bo'r angen i leihau ein hól troed carbon a thrwy hyn lleihau effaith negyddol ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.

Mae'r Tasgau Allweddol yn cynnwys:

- Lleihau'r defnydd o bapur o fewn y Gwasanaeth
- Eithafu'r defnydd o fideo-gynadledda i leihau'r angen i deithio i gyfarfodydd
- Archwilio'r rhwydwaith gwefru cerbydau trydan i'n galluogi i ddefnyddio cerbydau ynni trydan
- Archwilio ffyrdd newydd o weithio i leihau amseroedd teithio ar draws y Gwasanaeth
- Ystyried defnyddio tanwydd amgen i'n cerbydau i'r dyfodol, gan gynnwys ein cerbydau nwyddau trwm
- Adolygu ein harferion gwaith i leihau ein hól troed carbon, gan gynnwys ein dull o ddanfôn nwyddau i'n gorsafoedd tân
- Cyflwyno system archebu electronig i leihau'r defnydd o bapur yn ein hadran brynu
- Mabwysiadu dull ynni gwyrdd i bob dyluniad adeilad newydd
- Lleihau ein defnydd o ynni trydan a nwy mewn safleoedd a adnabuwyd drwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy





Defnyddio Technoleg yn Dda



Cymru sy'n gyfrifol
ar lefel fyd-eang

Byddwn yn
**Defnyddio Technoleg
yn Dda** wrth:

- Ddefnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf priodol i wella ein gwasanaethau
- Adolygu ansawdd a defnydd technoleg ag offer ar draws y Gwasanaeth

Golyga hyn:

Byddwn yn adolygu ein defnydd o dechnoleg yn rheolaidd fel bydd y caledwedd a'r meddalwedd fwyaf priodol yn cael ei ddefnyddio i'n helpu eich cadw'n ddiogel.

Tra bod technoleg yn parhau i ddatblygu ar gyflymder, ein ffocws bob tro yw defnyddio'r dechnoleg orau i recordio a monitro galwadau brys, dyrannu offer a'n helpu ni ar leoliad digwyddiadau brys eu hunain.

Agwedd hynod bwysig arall i ni yw adeiladu hydwythedd i'n systemau fel y byddant yn defnyddio'r feddalwedd a'r caledwedd mwyaf diweddar ond gyda threfniadau grymus wrth gefn mewn lle pe bai'r system yn methu.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod:

- Drafftwyd cytundeb cystadleuol i ddarparu gyflenwyr ddarparu amnewidiad i'n hoffer TGCh
- Cwblhawyd y mwyafrif o'r gwaith sy'n ofynnol i uwchraddio ein cyfrifiaduron symudol ar ein peiriannau tân fel bydd gan ein criwiau'r wybodaeth fwyaf cywir a chyfredol i'w ddefnyddio wrth ymateb i argyfyngau

Yn ystod 2020-2021, byddwn yn:

Parhau i adolygu ein defnydd o dechnoleg i'n gwasanaeth rheng flaen a'n system swyddfa gefn ill dau a ddefnyddir i gefnogi ein diffoddwyr tân a'n staff rheoli tân wrth gyflawni'u dyletswyddau ac i helpu eich cadw'n ddiogel ac i ymateb yn dda pe bai angen help arnoch.

Y tasgau allweddol yw:

- Diweddarau ein system Rheoli Fflyd fewnol i ddefnyddio'r systemau mwyaf effeithiol i sicrhau y cynhelir pob un o'n cerbydau i safon uchel iawn
- Amnewid peth o'n gweinyddion rhwydwaith i sicrhau gall ein systemau Technoleg, Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) elwa o ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a bod yn fwy hydwyth
- Gwella ein systemau TGCh fel bydd ganddynt amddiffyniad ehangach rhag ymosodiadau seiber posib
- Cwblhau'n llawn yr uwchraddiad i'n systemau terfynell gyfrifiadurol symudol ar ein peiriannau tân
- Ymchwilio i'r diweddariad mawr nesaf o ran caledwedd a meddalwedd gyfrifiadurol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr
- Gosod System Leoli Fyd-eang (GPS) ym mhob gorsaf dân i alluogi ein terfynellau cyfrifiadurol symudol ar ein peiriannau tân i weithio'n fwy effeithiol





Gwerthfawrogi Ein Pobl



Cymru
sy'n fwy cyfartal



Cymru
iachach



Cymru
lewyrchus



Cymru â diwylliant bywiog lle
mae'r Gymraeg yn ffynnu

Byddwn yn
**Gwerthfawrogi Ein
Pobl** wrth:

- Ddenu gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau
- Ddatblygu ein pobl wrth adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Gefnogi ein pobl i deimlo'n dda, yn iach a'n hapus yn y gwaith

Golyga hyn:

Rydym yn adnabod a gwerthfawrogi ein pobl fel yr ased mwyaf pwysig wrth gyflawni ein hamcanion. Drwy law ein pobl y darperir gwasanaeth cymunedol ardderchog. I lwyddo, mae angen y bobl gywir gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Bydd ein harweinwyr yn hyrwyddo ein diwylliant, yn byw yn unol â'n gwerthoedd ac yn hwyluso gweithlu uchel ei berfformiad sy'n dalentog, medrus, amrywiol ac awyddus. Byddwn yn datblygu dull pellgyrhaeddol i wella llesiant gweithwyr i ostwng absenoldeb oherwydd salwch a chanolbwyntio ar hyrwyddo iechyd a ffitrwydd. P'un ai'n weithiwr neu'n wirfoddolwr i'r Gwasanaeth, mae gan bawb rôl allweddol wrth gadw'n cymunedau'n ddiogel.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod:

- Crëwyd a chyflawnwyd Cynllun Gwirfoddoli Gwasanaeth i gynnwys y gymuned wrth ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau
- Darparwyd negeseuon recriwtio wrth ymgymryd â gweithgareddau diogelwch cymunedol a digwyddiadau ymgysylltu eraill fel her Sefydliad Achub y Deyrnas Unedig (UKRO) 2018
- Datblygwyd a chyflawnwyd strategaeth recriwtio newydd ar gyfer OCDS
- Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2025 a'n Cynllun Pobl 2020 - 2023

Yn ystod 2020-2021, byddwn yn:

Chwilio i ddenu a chyflogi gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau yn Ne Cymru, fel bydd y grwpiau hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein Gwasanaeth ar hyn o bryd ac mewn swyddi rôl benodol yn cyfrif am gyfran uwch o'n gweithlu i'r dyfodol. Byddwn yn datblygu ein pobl wrth adnabod a darparu cyfleoedd hyfforddi, datblygu a chynnydd wrth sefydlu llwybrau gyrfa a chynlluniau ar gyfer olyniaeth. Byddwn yn darparu amgylchedd gwaith diogel ac iach a sicrhau bydd lles corfforol a meddyliol ein pobl wrth wraidd unrhyw strategaethau a gweithdrefnau perthnasol.

Y tasgau allweddol yw:

- Adeiladu ar y llwyddiant a'r cynnydd sylweddol a wnaed yn ystod proses recriwtio diffoddwyr tân llawn amser 2019 a arweiniodd at naw diffoddwr tân yn cael eu recriwtio o gefndir sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y Gwasanaeth ar hyn o bryd
- Gweithredu'r cynllun darparu Gwasanaeth Tân ac Achub Cynhwysol
- Gweithredu adolygiad gwerthusiad swydd o holl strwythurau staff corfforaethol i fynd i'r afael â bylchau cyflog cyfartal a chyfartaledd rhwng y rhywiau
- Darparu yn erbyn camau sy'n deillio o adroddiad interim BmP Tachwedd 2019 a pharatoi am wiriad iechyd llawn yn Hydref 2020
- Datblygu agweddau clir o ran adnabod a datblygu ein staff, adnabod gweithlu'r dyfodol a chynlluniau am olyniaeth
- Datblygu gwerthoedd rheoli ac arwain i sicrhau bydd y Gwasanaeth mewn safle da i ymateb i heriau'r dyfodol
- Datblygu agwedd gyfannol i wella llesiant gweithwyr i leihau absenoldeb drwy salwch a chanolbwyntio ar hyrwyddo iechyd a ffitrwydd





Parhau i Weithio'n Effeithiol



Cymru
lewyrchus



Cymru â diwylliant bywiog lle
mae'r Gymraeg yn ffynnu

Byddwn yn **Parhau i Weithio'n Effeithiol** wrth:

- Fod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd
- Eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth

Golyga hyn:

Byddwn yn atebol yn gliri'r cyhoedd wrth sicrhau bydd ein cymunedau'n deall y risgiau o fewn eu hardal. Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd o'r hyn rydym yn gyfrifol am ddarparu drwy law trefniadau partner a sut ydym yn cynllunio gwneud hyn. Mae'r Cynllun Strategol hwn yn rhoi'r cyfle i ddinasyddion ddeall ein hamcanion a hefyd yn rhoi cyfle i gyfrannu at y cynllun hwn wrth gynnig adborth. Bydd ein Cynllun(iau) Gwella Blynnyddol yn hysbysu'r cyhoedd o'r llwyddiant a gafwyd gennym wrth gyflawni'r amcanion hyn a chwmpas a rhwystrau/neu rwystrau i gynnydd pellach. Bydd pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus yn parhau i'r dyfodol rhagweladwy ac am hyd y cynllun hwn. Byddwn yn chwilio cyfleoedd posib i adnabod arbedion effeithlonrwydd a chadw costau i lawr, wrth gyflawni ein dyletswyddau craidd yn effeithiol. Ein nod yw eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth.

Rhai pethau a wnaethpwyd gennym yn barod:

- Eithafwyd y defnydd o'n gorsafoedd tân yn Abertyleri, Y Barri a Llanilltud Fawr wrth rannu safleoedd â gwasanaethau brys sydd hefyd yn cefnogi cydweithio
- Gosodwyd goleuo LED yn ein Pencadlys a'n gorsafoedd tân sy'n defnyddio llawer llai o drydan ac sy'n rhoi gwell golau
- Gosodwyd systemau rheoli adeiladau, ar hyd pob safle, i gofnodi a monitro traul nwy a thrydan yn fisol ac yn flynyddol. Rydym yn gweithio tuag at ostwng treuliant a chostau fel hyn
- Cyhoeddwyd ymholiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar ein gwefan

Yn ystod 2020-2021, byddwn yn:

Datblygu cydweithredu ac ymgysylltu effeithiol â phartneriaid allweddol i ddarparu gwasanaethau cydlynus, cyrchadwy ac effeithiol i ddinasyddion ynghyd â chefnogi'r Gwasanaeth i ddod mor effeithlon a chost effeithiol â phosib. Byddwn, yn unigol a thorfol, yn adlewyrchu ar anghenion lleol, risgiau a modelau gweithredu i adnabod a gwireddu arbedion effeithlonrwydd posib wrth gynnal diogelwch y cyhoedd. Byddwn yn darparu adroddiadau agored a gonest ar ein perfformiad a darparu cyfle i aelodau'r Awdurdod Tan ac Achub craffu'r adroddiadau hynny.

Y tasgau allweddol yw:

- Coladu tystiolaeth o'r holl weithgareddau rydym yn cynnal mewn perthynas â chynlluniau lles y BGC ac adrodd ar ein cyfraniad at gynnydd amcanion y BGC
- Adolygu'r model Cwmpasiad Argyfwng y Gwasanaeth Tân CAGT (CAGT - system gyfrifiadurol a ddefnyddir i gyrchu gallu ymateb y Gwasanaeth a'r amser mae'n cymryd i gyrraedd mewn argyfwng ac ystyried ei ddefnydd i'r dyfodol neu gynnyrch modelu risg amgen)
- Archwilio cyfleoedd pellach ar gyfer prosiectau caffael a chomisiynu â'n BGC a'n partneriaid eraill, e.e. CRT yn cyd-brynu penwisgoedd â Heddlu De Cymru
- Datblygu dull o gipio a drafftio canllawiau ar brosiectau prynu mawr i sicrhau trefniadau prynu effeithiol yn y dyfodol
- Adolygu ein cytundebau â phartneriaid i sicrhau y cytunir â safonau a threfniadau cyfreithiol priodol ac yr ymlynir atynt
- Gwneud y gorau o ddatrysiadau TGCh ar draws y Gwasanaeth i greu cynhwysedd staff ac arbedion cost, e.e. staff hunan-weiniol
- Adolygu a monitro mynychiad i gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd i sicrhau effeithiolrwydd cost



Dweud eich dweud

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella ein gwasanaethau ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn gwneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflwyno ein gweithgareddau a chyflwyno gwybodaeth i chi.

Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View,
Llantrisant,
CF72 8LX

Ffoniwch ni

01443 232000



Y wefan

www.decymru-tan.gov.uk



@TanDeCymru



@TanDeCymru



@sw_fire_and_rescue

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg - byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau ac yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-oed.

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service